**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Derbyn Ceredigion**

**a gynhaliwyd yn**

**Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach**

**ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2013.**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd), David Williams, Ysgol Bro Pedr

**Swyddogion yn bresennol:** Nia James (Gwasanaethau Dysgu ), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

**5.00 pm - 5.30 pm**

## 1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Ymddiheurodd Mr Angelo James, Ms. Heddwen Davies, Mrs Helen Hopkins a'r Cynghorydd Paul Hinge am na fedrent fod yn bresennol.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013

**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013 fel cofnod cywir ar amod newid y dyddiad i Fehefin (yn hytrach na Gorffennaf)

## 3 Dogfen Wybodaeth i Rieni Medi 2013

Er gwybodaeth, cadarnhawyd cydymffurfiad gyda'r canllawiau .

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a gafwyd.

## 4 Apeliadau a oedd yn ymwneud â Derbyn

Cylchredwyd manylion apeliadau diweddar a benderfynwyd gan y panel annibynnol.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a gafwyd.

## 5 Niferoedd Derbyn

Dosbarthwyd adroddiad ar niferoedd derbyn yr ysgolion unigol.

**CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a gafwyd.**

## 6 Polisi Derbyn

Nodwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru (LlC) ynghylch newidiadau i'r Polisi wedi cael eu cynnwys a'u chylchredeg i Lywodraethwyr yr ysgolion.

## 7 Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion

Nodwyd nad oedd diweddariad ar gael ar hyn o bryd oherwydd ymweliad arolygwyr Estyn. Nodwyd bod staff ysgolion yn cymeradwyo'r gwasanaeth fel un llwyddiannus iawn.

## 8. Unrhyw Fater Arall

Nodwyd ymddeoliad Angelo James a bod Heddwen Davies yn newid swydd felly byddai raid derbyn enwebiadau newydd i'r Fforwm hon. Nodwyd enwebiad Peter Legget o ysgol San Padarn a byddai angen cynrychiolydd o Ysgol Llanwenog.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r uchod yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014.

**Cadeirydd**